**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1050
Ein cyf/Our ref FM -/01689/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Seneddpetitions@senedd.wales

11 Rhagfyr 2020

Annwyl Gadeirydd

Dwi'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 19 Hydref. Hoffwn ymddiheuro am yr oedi yn ymateb i chi.

Cafodd y rheoliadau a oedd yn rhoi cyfyngiadau lleol ar waith eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Rhaid i'r holl reoliadau fod yn destun pleidlais, a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo, yn y Senedd. Ceir dwy weithdrefn graffu, y gellir eu dilyn:

- **Y weithdrefn gadarnhaol ddrafft** lle mae'r Senedd yn ystyried rheoliadau, ac yn cynnal pleidlais arnynt, ar ffurf drafft. O dan y weithdrefn hon, ni ellir llofnodi'r rheoliadau, ac ni allant ddod i effaith, hyd nes y cânt eu cymeradwyo drwy bleidlais gan yr Aelodau. Yn unol â'r gofynion gweithredol rhaid i'r rheoliadau drafft gael eu gosod gerbron y Senedd am 21 o ddiwrnodau nad ydynt yn syrthio yn ystod toriad cyn y gellir cynnal dadl arnynt.
- **Y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'** lle caiff y rheoliadau eu gwneud a gallant ddod i effaith yn fuan iawn ar ôl iddynt gael eu llofnodi. Mae'n ofynnol o hyd i'r Senedd eu cymeradwyo cyn pen 28 o ddiwrnodau nad ydynt yn syrthio yn ystod toriad, fel arall byddant yn methu.

Gan fod y sefyllfa cyfredol o ran iechyd y cyhoedd mor argyfyngus mae'n rhaid gwneud rheoliadau yn defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', er mwyn i fesurau cymesur allu cael eu cymryd i ymateb yn gyflym i fygythiad i iechyd pobl o ganlyniad i'r coronafeirws.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, wedi ystyried yn ofalus sut i amserlennu dadleuon ynghylch reoliadau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws sydd wedi dilyn y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'. Rydym wedi ymdrechu i gydbwyso nifer o agweddau:

- Sicrhau bod Aelodau yn gallu cynnal dadl ynghylch y rheoliadau a phleidleisio a ddylid eu cymeradwyo ai peidio cyn gynted â phosibl wedi iddynt gael eu rhoi yn eu lle
- Sicrhau y creffir yn briodol ar y rheoliadau drwy ganiatáu amser i'r Aelodau ystyried y manylion yn y rheoliadau ac adroddiad gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd;
- Gofynion Rheolau Sefydlog y Senedd

Yn ystod hynt y pandemig rydym wedi newid ein dull ac rydyn yn amserlennu dadleuon yn gynharach na'r ffenestr o 28 o ddiwrnodau. Erbyn hyn, cynhelir y rhain fel arfer ar y dyddiad cyntaf posibl tra'n cydymffurfio â gofynion y Rheolau Sefydlog.

Rydym hefyd wedi ceisio lliniaru heriau o ran yr amserlen drwy gynnig cyfleoedd eraill i gynnal dadleuon ynghylch cyfyngiadau *cyn* i reoliadau gael eu gwneud. Er enghraifft, cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar gyfyngiadau'r "cyfnod atal byr" ar 20 Hydref, cyn i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 gael eu gwneud ar 21 Hydref a dod i rym ar 23 Hydref. Rhoddais ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Tachwedd hefyd a oedd yn amlinellu'r drefn arfaethedig ar ôl y cyfnod atal byr, ac atebais gwestiynau maith gan yr Aelodau. Cafodd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 eu cwblhau wedi hynny, a chawsant eu gwneud ar 5 Tachwedd cyn dod i rym ar 9 Tachwedd.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**